Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Cynllun Tocynnau Trên Rhatach 2010/2011**

**Dyddiad:** **14 Hydref 2010**

**Gan:** **Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Mae'n dda gennyf eich hysbysu bod y cynlluniau tocynnau trên rhatach ar lein Canol Cymru a lein Arfordir Cambria wedi ailgychwyn ar 3 Hydref ar gyfer tymhorau'r hydref a'r gaeaf.

Mae'r cynllun ar lein Calon Cymru yn agored i unrhyw un sydd â phás bws rhad gan Ddinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Caerfyrddin neu Gyngor Sir Powys.

Mae'r cynllun ar lein Arfordir y Cambria yn agored i unrhyw un sydd â phás bws rhad gan Gyngor Sir Gwynedd.

Bydd y cynlluniau tocynnau trên rhatach ar lein Dyffryn Conwy ac ar lein Wrecsam i Bidston yn para tan 30 Medi 2011.

Cafodd yr ymrwymiadau i'r cynlluniau tocynnau trên rhatach hyn eu gwneud yn Cymru'n Un ac maent yn parhau'n boblogaidd iawn. Cafodd 97,000 o deithiau eu gwneud yn 2009/10.

Noddir y cynllun gan Lywodraeth y Cynulliad gyda chyfraniadau ariannol gan bartneriaid y cynllun, sef Awdurdodau Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Powys, Gwynedd, Conwy, Wrecsam a Sir y Fflint.